**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol - Canolfan Gymdeithasol Golan**

**Dyddiad:**

3ydd o Fedi 2026

**Presennol**

John Till (Cadeirydd), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Enid Egginton (Garndolbenmaen) Megan Lloyd Williams (Golan), Richard Williams (Prenteg) Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd)

**Datgan Buddiant**

RP – Eitem 13

**Penderfyniadau**

**Mynwentydd**

Cwblhawyd archwiliad o Fynwent Bethel. Adroddwyd bod y fynwent mewn cyflwr rhagorol, a chytunwyd y dylid canmol y contractwr am safon uchel y gwaith.
Cadarnhawyd bod y mynwentydd eraill hefyd yn daclus, a bod gwaith yr holl gontractwyr yn ganmoladwy.
Gofynnwyd i'r Clerc gadarnhau a oes angen toriad pellach ym Mynwent Eglwys Llanfihangel-y-pennant, Cwm Pennant, ac i sicrhau bod y ddau lwybr sy'n arwain at y fynwent yn cael eu torri.
Adroddwyd bod carreg goffa John Ystumllyn wedi'i symud oddi ar y bedd ym Mynwent Ynyscynhaearn. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau i ganfod pam y digwyddodd hyn ac a fyddai modd ail-osod y garreg ar y bedd.

**Gwersylla Anghyfreithlon**

Mynegwyd pryder ynghylch pobl yn gwersylla'n anghyfreithlon ger Clenennau. Gofynnwyd i SCH gysylltu â'r Aelod Seneddol lleol. Cynigiwyd hyn gan MLW, eiliwyd gan RW, a chytunodd pawb.

**Cyflwr Ffordd Cwmystradllyn**

Gofynnwyd i SCH am ddiweddariad ar gyflwr ffordd Cwmystradllyn yn dilyn y gwres eithriadol dros yr haf. Cadarnhaodd nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach gan Gyngor Gwynedd, a gofynnwyd iddo fynd ar drywydd y mater.

**Parcio ar Pont Llan, Cwm Pennant**

Mynegwyd pryder ynghylch cerbydau'n parcio ar Bont Llan yng Nghwm Pennant, gan rwystro mynediad i gerbydau mawr a loriau sy'n danfon i ffermydd y cwm. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i holi a fyddai modd gosod arwyddion 'Dim Parcio' yn y lleoliad.